

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer Gwasanaethau Endosgopi yng Nghymru

Mae pawb sy'n cael diagnosis o ganser y coluddyn yn haeddu cael y mynediad gorau posibl at archwiliadau a thriniaethau. Mae gwasanaethau endosgopi yn rhan hollol hanfodol o'r broses o ymchwilio i achosion lle y mae amheuaeth o ganser, ac archwilio canlyniadau sgrinio cadarnhaol, yn ogystal â chadw gwylidwriaeth ddilynol ar bobl sydd wedi cael triniaeth am ganser yn y gorffennol. Hefyd rhaid inni gydnabod bod endosgopi yn chwarae rôl yr un mor bwysig mewn perthynas â chyflyrau difrifol nad ydynt yn ganser, megis clefyd llid y coluddyn, a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddarparu triniaethau ymyrryd, yn ogystal â gofal diagnostig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau endosgopi yng Nghymru. Mae nifer y triniaethau endosgopi diagnostig y mae angen eu darparu yn cynyddu oherwydd newidiadau yn y boblogaeth, trothwy is ar gyfer ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth o ganser, y galw cynyddol ar drefniadau cadw gwylidwriaeth, a'r angen i ehangu rhaglen sgrinio'r coluddyn. Mae'r galw yn sylweddol mwy na'r capasiti craidd sydd ar gael, ac mae'r byrddau iechyd wedi gorfod ymdrechu'n ddi-baid i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy mewn ymateb i'r sefyllfa sydd ohoni.

Yn sgil cael cyngor gan y Grŵp Gweithredu ar Endosgopi, ac yng nghyd-destun cynllun Cymru Iachach, ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull gweithredu newydd ar gyfer y gwasanaethau endosgopi, sef dull a fyddai'n cael ei gyfarwyddo ar lefel genedlaethol. I gefnogi'r dull gweithredu hwn, rwyf wedi addo rhoi £1 miliwn y flwyddyn o'r gyllideb llwybrau clinigol newydd. Cafodd gweithdy cenedlaethol ei gynnal i'r holl fyrddau iechyd a'r prif randdeiliaid ym mis Rhagfyr, er mwyn rhoi cyngor ar gwmpas a ffocws y rhaglen. Roedd y rhaglen genedlaethol wedi ei sefydlu o fewn Rhaglen Gydweithredol y GIG erbyn mis Chwefror 2019, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Endosgopi newydd ym mis Ebrill 2019. Mae manylion terfynol cylch gorchwyl y Bwrdd yn cael eu pennu, ac mae arweinydd y rhaglen genedlaethol wedi dechrau yn ei swydd. Mae'r is-grwpiau wedi dechrau gweithio ar eu tasgau perthnasol, gan gynnwys canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu'r gweithlu; cynllunio ar gyfer galw a chapasiti; cynllunio llwybrau clinigol i allu cael y gorau ohonynt; a sicrhau'r cyfleusterau a'r seilwaith. Rwy'n disgwyl gweld cynnydd cyflym ac ymdrech barhaus am nifer o flynyddoedd er mwyn inni allu ymateb i'r her hon.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Erbyn mis Hydref 2019, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r rhaglen gwella endosgopi genedlaethol i greu a chyhoeddi cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r galw nawr ac yn y dyfodol am wasanaethau sydd ag amserlenni a thargedau clir ar gyfer gwella, i'w goruchwyllo gan fwrdd y rhaglen

endosgopi genedlaethol, ac mae'n rhaid iddo nodi manylion am sut a phryd y bydd pob un o'r materion a ganlyn yn cael sylw a/neu'n symud ymlaen fel y dylent:

- Rhaglen wedi'i hamserlennu ar gyfer cynyddu sensitifrwydd y Prawf Imiwnogemegol Ysgarthion a phrofion oedran, gyda cherrig milltir i optimeiddio'r rhaglen fel nad yw Cymru'n syrthio ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r DU;
- Mynd i'r afael â materion capasiti presennol a rhoi sicrwydd y bydd byrddau iechyd yn sicrhau terfyn uchaf o ran yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig;
- Dull gweithredu mwy cynaliadwy tuag at gyflawni'r targedau amseroedd aros, o ystyried natur tymor byr contractio ar sail mewnol ac allanol a'r gost o wneud hynny;
- Gweithredu camau ar unwaith i adolygu sut mae cleifion risg uchel yn cael eu rheoli, gan ddatblygu dull cynaliadwy, cenedlaethol i reoli'r rhai y mae angen cynnal gweithdrefnau goruchwyllo endosgopig parhaus ar eu cyfer;
- Dull cenedlaethol o ran cynllunio gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau endosgopi yng Nghymru mewn sefyllfa i ymdopi â'r cynnydd disgwylidig mewn atgyfeiriadau o ganlyniad i raglen Sgrinio Coluddion Cymru, gan gynnwys modelau gofal newydd i gynyddu nifer y staff endosgopi yng Nghymru;
- Opsiynau ar gyfer rhaglen hyfforddi gyflym nad yw'n feddygol i ehangu'r gweithlu endosgopi er mwyn ymateb i'r galw, gan gynnwys ystyried academi endosgopi a manylion ynghylch sut y bydd gwahanol anghenion gweithlu cymysg yn cael eu diwallu;
- Cefnogaeth i helpu byrddau iechyd i weithio tuag at achrediad y Cydgrŵp Cynghori ar gyfer Endosgopi Gastroberfeddol, gyda disgwyliad y bydd pob uned endosgopi yng Nghymru yn ceisio sicrhau achrediad yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwasanaethau endosgopi yn cael eu darparu yn unol ag arfer clinigol gorau;
- Penderfyniad ar sut a phryd y dylid cyflwyno Prawf Imiwnogemegol Ysgarthion i ofal sylfaenol;
- Targed mwy uchelgeisiol na'r nod presennol i sicrhau bod 60% o'r holl gyfranogwyr cymwys yn dewis cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio canser y coluddyn, gan gynnwys manylion ynghylch sut a phryd y bydd y targed hwn yn cael ei adolygu a'i gyflawni, ac ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig i gynyddu nifer y dynion sy'n dewis cael eu sgrinio mewn ardaloedd difreintiedig; a
- Adeiladu ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus "Bod yn Glir am Ganser" i helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n dewis cael eu sgrinio drwy godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r newidiadau i'r rhaglen sgrinio coluddion.

Ateb: derbyn

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ymgymryd ag ymchwiliad i fater mor bwysig, a'r argymhelliad defnyddiol y mae wedi ei gyflwyno. Rwy'n falch o allu cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i gyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau endosgopi, a fydd yn cynnwys y pwyntiau penodol sydd wedi eu hawgrymu, ac yn derbyn yr amserlen chwe mis y gofynnwyd amdani.

Hoffwn gynnig un pwynt o eglurder o ran y nod o gynyddu'r targed ar gyfer nifer y bobl sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn. Nid targed perfformiad yw'r trothwy o 60%

ar gyfer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth; yn hytrach, safon ofynnol yw hon y dylai'r rhaglen ei bodloni er mwyn darparu'r manteision i'r boblogaeth a fwriedir yn argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Nid yw'n briodol gwyro oddi wrth argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i weld y safon yn cael ei bodloni. Rydym yn disgwyl i'r ymdrechion i annog pobl i fanteisio ar y gwasanaeth sgrinio, ynghyd â'r ffaith bod prawf haws ei ddefnyddio yn cael ei gyflwyno, arwain at sefyllfa lle y bydd y safon yn cael ei bodloni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Hoffwn hefyd roi'r sicrwydd y mae'r Pwyllgor wedi ei geisio o ran cael mewnbwn clinigol lefel uwch yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r mewnbwn hwn yn rhan amlwg o'r dull gweithredu sy'n cael ei gyfarwyddo ar lefel genedlaethol, fel y'i nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd. Cynhaliwyd gweithdy pellach ym mis Mai 2019 ar gyfer y gymuned glinigol er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i sicrhau'r mewnbwn clinigol mwyaf effeithiol posibl ar draws pob lefel o'r rhaglen. Bydd y mewnbwn clinigol angenrheidiol yn ei le ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'i is-grwpiau yn y dyfodol.

Y goblygiadau ariannol: gellir cyhoeddi cynllun gweithredu yn seiliedig ar waith y rhaglen endosgopi genedlaethol o fewn adnoddau staff presennol.